3 Mawrth 2026

Annwyl

**ATISN 26593**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 20 Ionawr. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*Os gwelwch yn dda, rhestrwch bob achlysur ers 6 Awst 2024 y mae gweinidog wedi defnyddio cyfrif e-bost personol ar gyfer busnes y llywodraeth.*

*Ar gyfer pob achlysur, enwch y gweinidog, y dyddiad a pha fusnes llywodraeth a gynhaliwyd.*

**Ein hymateb**

Gan fwyaf, nid yw cyfeiriadau e-bost personol y Gweinidogion yn hysbys i Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r achlysuron canlynol ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai:

7 Ebrill 2025 – clirio erthygl i'r wasg.

27 Awst 2025 – briff ar ddigwyddiad tanau gwyllt

5 Rhagfyr 2025 – clirio briff ar gyfer y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru).

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir